

# CLUB LIFE

*Empower, Engage, Sustain*

## Gwneud eich Clwb Hoci'n fwy gweladwy yn y gymuned leol

Mae twf a datblygiad eich clwb yn dibynnu ar ba mor weladwy ydych chi yn y Gymuned, yn enwedig os nad oes gennych eich cyfleuster eich hun ac os ydych yn llogi canolfan hamdden neu ysgol. Bydd gwneud eich hun yn hysbys ymhlith aelodau eich cymuned yn helpu'r clwb i ddatblygu o ran aelodaeth, gweithlu, denu gwirfoddolwyr hollbwysig neu ennill rhywfaint o nawdd gwerthfawr i helpu sefyllfa ariannol y clwb! Bydd yr adnodd hwn yn cynnig cyngor defnyddiol ac ambell fan cychwyn amlwg nad ydych wedi meddwl amdanynt o'r blaen efallai. Gallai gweithredu dim ond dau neu dri o'r rhain wella'r clwb yn ddramatig.

## Pam fod angen i chi wneud eich clwb yn weladwy yn y Gymuned?

- Denu aelodau, hyfforddwyr a gwirfoddolwyr newydd.
- Bydd pobl yn gwybod eich bod yn bodoli!
- Denu noddwyr neu bartneriaid newydd posib.
- Codi proffil y clwb.
- Helpu gydag incwm drwy hyrwyddo digwyddiadau, gwyliau a dyddiau agored.



For more information, visit:

[www.hockeywales.org.uk/play/club-life](http://www.hockeywales.org.uk/play/club-life)



## Pwy sydd yn y Gymuned?

Pwy sydd yn y gymuned?	Pa fudd allant ei gynnig?
Ysgolion Lleol	Yn amlwg, mae ysgolion lleol yn lle da i ddechrau hyrwyddo'r clwb a beth sydd gennych i'w gynnig. Nid yn unig fydd gennych chi fynediad at gannoedd o ddisgyblion sy'n aelodau posib ond hefyd mae gennych amrywiaeth eang o staff eraill fel athrawon, goruchwylwyr amser cinio, gofalwyr a llywodraethwyr - a gallai pob un ohonynt fod yn aelodau ac yn gynorthwywyr posib yn eich clwb. Am fwy o wybodaeth am sut i greu perthynas dda â'ch ysgol leol, beth am ddefnyddio adnodd "Cysylltu eich Clwb ag Ysgol Leol" BYWYD CLWB.
Colegau a Phrifysgolion Lleol	Fel Ysgolion, mae Prifysgolion a Cholegau hefyd yn cynnig llawer iawn o bobl i gynnig cyfleoedd iddynt. Gallwch deilwra dipyn o'ch rhaglenni ar gyfer y math o goleg neu brifysgol sydd gennych yn eich cymuned. Er enghraifft, os oes gennych goleg 'chwaraeon' sy'n cynnig graddau a chyrsgiau cysylltiedig â chwaraeon, gallai hon fod yn ffordd o ddenu chwaraewyr sydd eisoes yn chwarae?
Datblygiadau tai newydd	Mae datblygiadau tai'n codi drwy'r amser gan ddenu trigolion lleol a phobl newydd i gymdogaeth. Sicrhewch fod eich clwb ar eu radar o'r munud maen nhw'n arwyddo am eu tŷ newydd.
Bwytai a Llefydd Tecawe	Ar gyfartaledd yn y DU, mae 12 tecawe yn cael eu prynu gan bob person bob mis! Er bod hwn yn ystadegyn brawychus, manteisiwch arno drwy wneud eich clwb yn hysbys i fynychwyr siopau tecawe!
Canolfannau Siopa	Mae cannoedd o siopwyr, neu filoedd weithiau yn y dinasoedd mawr, yn ymweld â chanolfannau siopa bob dydd. Beth am fanteisio ar y farchnad yma a hyrwyddo eich clwb ymhlith siopwyr hapus!
Siopau Gwag	Gyda'r dirwasgiad yn taro trefi bach yn galed a gyda llawer o siopau gwag mewn dinasoedd a threfi ar hyd a lled y wlad, beth am ofyn i'ch Cyngor Lleol a oes ganddo unrhyw gynlluniau y gallwch eu defnyddio i lenwi'r rhain gyda hysbysebion / gweithgareddau.
Cyflogwyr Mawr	Bydd gan ddinasoedd a threfi mawr gyflogwyr mawr. Er enghraifft, ysbytai, prifysgolion, gorsafedd heddlu a chwmnïau cenedlaethol ac archfarchnadoedd mawr. Beth am i'ch clwb greu ambell becyn penodol a tharged rhai o'r cyflogwyr hyn? Gall eich awdurdod lleol roi rhestr o gyflogwyr mwyaf yr ardal i chi.
Salonau Gwallt/ Harddwch	Mae Salonau Gwallt a Salonau Harddwch yn denu llawer o gwsmeriaid benywaidd yn aml. Beth am weithio fel tîm gyda'r salonau lleol i helpu i hyrwyddo'r clwb a sesiynau a nosweithiau sy'n addas i fenywod.
Clybiau Chwaraeon Eraill	Peidiwch â meddwl mai chi yw'r unig glwb yn y gymuned. Rydych yn debygol o fod ymhlith clybiau tenis, rygbi, nofio ac yn y blaen, sydd i gyd yn ceisio gwneud yr un peth. Beth am fanteisio ar hyn a gweithio fel tîm i gael aelodau, swyddogion a gwirfoddolwyr newydd.
Gorsafodd Petrol	Mae Gorsafodd Petrol yn olygfa gyfarwydd ar ein stryd fawr ac yn ein harchfarchnadoedd. Beth am fanteisio ar hyn a gwneud dipyn o farchnata targed tra bo pobl yn llenwi eu ceir!



For more information, visit:

[www.hockeywales.org.uk/play/club-life](http://www.hockeywales.org.uk/play/club-life)



## Ffyrdd o Ymgysylltu

Targed	Dull o Ymgysylltu
Colegau a Phrifysgolion Lleol	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Mynychu diwrnodau agored y Brifysgol a ffair y glas fyfyrwyr (tua chanol mis Medi fel rheol)</li> <li>▪ Ymweld â'ch Prifysgol leol ar brynhawn dydd Mercher - dyma pryd mae'r campau a'r gemau'n cael eu chwarae fel rheol.</li> <li>▪ Os yw'n Goleg neu'n Brifysgol chwaraeon, beth am drefnu i ymweld â darlith. Mae myfyrwyr yn chwilio am ffyrdd o gwblhau oriau gwirfoddol yn aml. Efallai y dowch o hyd i ambell i chwaraewr newydd hefyd.</li> <li>▪ Cynigiwch ostyngiad ar aelodaeth i fyfyrwyr</li> </ul> <p>O.N. Oes gennych chi bolisi ar gyfer y myfyrwyr lleol sy'n dychwelyd o Brifysgol? Efallai nad oes ganddynt yr un gefnogaeth neu arian a oedd ganddynt cyn mynd i Brifysgol!</p>
Datblygiadau tai newydd	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Os oes gan y cwmni tai dderbynfa, beth am ofyn a gewch chi adael taflenni yno?</li> <li>▪ Byddwch yn greadigol! Os oes ganddynt dŷ arddangos, beth am ofyn gewch chi osod hysbyseb wedi'i fframio ar y wal yn y tŷ - byddai'n rhaid iddo edrych yn dda! Byddai'n ddoeth cael rhywun proffesiynol i'w greu i chi.</li> </ul> <p>Beth am baratoi taflenni ar gyfer y bobl newydd sy'n symud i mewn? Efallai y byddwch eisiau cynnig bargaen arbennig iddynt, neu i'r datblygiad cyfan? (er enghraifft, 50% oddi ar yr aelodaeth am y flwyddyn gyntaf, Ffon Hoci am ddim i'r holl drigolion newydd, neu sesiwn blasu am ddim yn y clwb)</p>
Bwyta i Llefydd Tecawe	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Cael y Tecawe i noddi tîm neu adran yn y clwb.</li> <li>▪ Bwyd rhatach i holl aelodau'r clwb.</li> <li>▪ Poster i a thafleuni ar gownter y Tecawe.</li> <li>▪ Hysbyseb ar eu bwydlen.</li> </ul> <p>Prydau Bargaen y Clwb Hoci! Er enghraifft, gallech gael y Tecawe i newid enw'r pryd mwyaf poblogaidd yno i 'Bargaen yr wythnos y Clwb Hoci'.</p>
Canolfannau Siopa	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Trefnwch ddydd Sadwrn cyn i'r tymor ddechrau i hyrwyddo'r clwb (neu sesiwn penodol / diwrnod agored) ar y system gyhoeddi yno</li> <li>▪ Dosbarthwch daflenni i siopwyr yn ystod y dydd.</li> <li>▪ Gofynnwch am ganiatâd i gael stondin yn y ganolfan siopa. Er bod hyn braidd yn radical, bydd yn sicr yn weladwy. Efallai y byddwch am i rai o'r aelodau ifanc arddangos eu sgiliau hyd yn oed, a chaniatewch sesiynau blasu.</li> <li>▪ Oes gennych chi unrhyw un sy'n ddigon dewr i gerdded o gwmpas y ganolfan siopa gyda bwrdd brechdan a gwybodaeth am y clwb arno?</li> </ul>

For more information, visit:

[www.hockeywales.org.uk/play/club-life](http://www.hockeywales.org.uk/play/club-life)



## Ffyrdd o Ymgysylltu

Targed	Dull o Ymgysylltu
Siopau Gwag	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Defnyddiwch ffenestr wag y siop i hysbysebu rhai o'r cyfleoedd sydd gennych yn eich clwb.</li> <li>▪ Yn ystod y dydd, beth am osod offer yn y siop a gadael i blant a theuluoedd ddod i mewn am sesiynau blasu – gallech roi cylched driblo fach at ei gilydd.</li> </ul> <p>I reoli'r costau, beth am weithio fel tîm gyda chlwb, sefydliad neu gamp arall?</p>
Cyflogwyr Mawr	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Gofynnwch i gyflogwyr mawr gewch chi roi gwybodaeth am y clwb yn eu hystafelloedd staff.</li> </ul> <p>Lluniwch gynigion ar gyfer gweithwyr y cwmnïau mawr. Beth am aelodaeth gorfforedig i 10 cyflogwr mwyaf yr ardal? I hybu hyn, siaradwch yn uniongyrchol â'r cwmnïau, oherwydd maent yn debygol o hysbysebu holl fanteision y cwmni ymhlith y staff .</p>
Salonau Gwallt/Harddwch	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Gofynnwch i rai o'r salonau lleol allwch chi adael hysbyseb ar eu hysbysfwrdd.</li> <li>▪ Beth am weithio fel tîm gyda'r salon a gofyn a fyddent yn gallu cynnig gostyngiad penodol i rai o'r timau merched.</li> </ul> <p>Cydweithiwch i gynnig gostyngiad i gwsmeriaid ac aelodau.</p>
Clybiau Chwaraeon Eraill	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Targedwch glwb sydd â thymor chwarae gwahanol i chi. Gallech gynnig aelodaeth ar y cyd neu ddod o hyd i hyfforddwr neu wirfoddolwr a allai helpu gyda mwy nag un gamp.</li> <li>▪ Beth am ddatblygu cynllun gweithredu ar y cyd? Er enghraifft, cymryd eich tro i fynd i ysgolion a hyrwyddo'r ddau glwb (neu fwy na dau)</li> </ul> <p>Gallech drefnu diwrnodau neu sesiynau aml-chwaraeon i hyrwyddo'r holl gampau sy'n cael eu cynnig. Gallai hyn eich galluogi i ymwneud â mwy o blant neu oedolion a defnyddio llai o adnoddau.</p>
Gorsafoedd Petrol	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Mae nifer o gwmnïau'n gwerthu llefydd hysbysebu ar bympiau petrol ac mewn gorsafoedd petrol. Efallai eich bod yn meddwl bod hyn yn gostus. Er hynny, mae rhai cwmnïau'n cynnig pris o £400 am lenwi 16,000 o geir. Dyma ffordd wych i ddefnyddio ymgyrch hyrwyddo ar gyfer prosiect penodol.</li> </ul>



For more information, visit:

[www.hockeywales.org.uk/play/club-life](http://www.hockeywales.org.uk/play/club-life)



## Pethau i'w cofio wrth hyrwyddo eich clwb yn y gymuned

1. Gwnewch yn siŵr eich bod yn hyderus bod unrhyw beth rydych yn ei osod mewn lle cyhoeddus yn gynrychiolaeth dda o'ch clwb ac o safon uchel. Hefyd, gwnewch yn siŵr bod y gramadeg yn gywir a bod y manylion i gyd yn berthnasol.
2. Sicrhewch fod pawb yn y clwb yn gwybod beth rydych yn ei wneud, fel bod unrhyw ymholiadau'n gallu cael eu hateb yn gywir ac yn effeithiol.
3. Os ydych yn cyfeirio at gyfryngau cymdeithasol, gwnewch yn siŵr bod y dolenni'n gywir, a bod unrhyw fanylion sydd ar y rhyngwryd yn gywir ac yn gyfredol.
4. Cofiwch beidio â chyfyngu ar unrhyw wybodaeth gyhoeddus gyda dyddiadau ac amseroedd. Po hiraf fyddwch yn arddangos hysbyseb, y gorau, ond gwnewch yn siŵr bod y dyddiadau dal yn gyfredol!



For more information, visit:

[www.hockeywales.org.uk/play/club-life](http://www.hockeywales.org.uk/play/club-life)

HOCKEY WALES  
HOCI CYMRU